# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD MERCHER, 19 HYDREF 2016

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ann Williams a John Wyn Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

**5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Tudor Owen . Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

a) Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno a bod y datganiad yn nodi bod gan yr ymgeisydd gollfarn a oedd yn berthnasol i drwyddedu gyrwyr tacsi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Ymhelaethodd ar gefndir ei gollfarn ac ymddiheurodd am beidio amlygu'r collfarnau hynny ar ei ffurflen gais. Nododd ei ddymuniad i gael gwaith er mwyn cyfrannu at gostau prifysgol ei blant a chynnal ei hun a'i gartref. Amlygodd ei fod eisoes yn gyrru lorïau a cherbydau adeiladu yn ei swydd bresennol a bod profion dwys yn cael ei gwneud ar ei iechyd a'i allu i yrru yn ofalus.

ch) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y

cais.

dd) Derbyniodd yr Is Bwyllgor y wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad DBS fel disgrifiad cywir o'r digwyddiadau. Atgoffwyd yr Is-bwyllgor, yn unol ag adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, na ellid rhoi trwydded oni bai eu bod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded

d) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffactorau canlynol :

- gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a’r datganiad DBS
- sylwadau llafar yr ymgeisydd
- bod gan yr ymgeisydd gollfarnau:

Ystyriwyd bod y collfarn o ddefnydd twyllodrus o fanylion trwydded yrru a chollfarn cysylltiedig o fethu â darparu tystysgrif yswiriant i’r Heddlu yn rhai hanesyddol (dyddiedig 2000). Yn unol a pharagraff 8.2 o’r Polisi Trwyddedu mae angen i 3 blynedd basio yn dilyn collfarn am drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd, cyn y gellid ystyried rhoi trwydded. Nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod hyn yn reswm i wrthod y cais.

Ystyriwyd bod y collfarn o rybudd am aflonyddu yn 2013 yn un hanesyddol. Yn unol a pharagraff 17.1 o’r Polisi Trwyddedu, mae angen i 12 mis basio ers derbyn y rhybudd cyn ystyried rhoi trwydded, ond gyda’r digwyddiad yn un oedd wedi digwydd dros 3 blynedd yn ôl, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod hyn yn rheswm i wrthod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.45 y.b.

**CADEIRYDD**